*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Gorffennaf 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Jonathan Blyde, Rheolwr Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol – Adroddiad Blynyddol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno, a chyhoeddi'r adroddiad ar wefan yr Awdurdod Tân ac Achub.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n gosod partneriaeth gymdeithasol ar sail statudol yng Nghymru.

3. Ar 1 Ebrill 2024 daeth y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol ("y Ddyletswydd") ar gyrff cyhoeddus i rym yng Nghymru.

4. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut maent wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a grëwyd gan y Ddeddf.

5. Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:

   - yn pennu eu hamcanion llesiant; ac
   - yn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

6. Mae'r Ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gael ei gytuno gydag undebau llafur cydnabyddedig yr Awdurdod neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

7. Mae holl ofynion y Ddeddf wedi'u cyflawni trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Negodi, gan gynnwys cytundeb ar yr adroddiad blynyddol ei hun.

## ARGYMHELLIAD

8. Bod yr Aelodau yn:

   i) **Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'w gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn craffu arno a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## CEFNDIR

9. Mae'r gofyniad hwn yn gysylltiedig â gosod amcanion llesiant, y mae'r ATA eisoes yn ymgynghori â'r cyhoedd ac aelodau o staff arnynt yn rhinwedd y gofyniad i ymgynghori'n gyhoeddus ar amcanion gwella, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## GWYBODAETH

10. Nid yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wedi rhoi templed ar gyfer yr adroddiad. Felly, mae'r dull o ran adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2025–26 wedi'i seilio ar y dull a ddefnyddiodd yr awdurdod ar gyfer yr adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol cyntaf (2024–25).

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ymwneud ag ymgynghori â a chynnwys undebau llafur wrth osod amcanion llesiant. Yn ogystal, mae'r ATA wedi ymgynghori â'r cyhoedd a'r staff ar ei amcanion arfaethedig ar gyfer 2026–27. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau |
| Cyfreithiol | Bydd cyhoeddi Adroddiad y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn sicrhau bod yr ATA yn cyflawni'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. |
| Staffio | Dim goblygiadau |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân wedi'i ddatblygu gan y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn perthynas ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. |
| Risgiau | Dim goblygiadau |